**Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector i Gymru: Cofnodion Cyfarfod**

CGGC, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
Dydd Iau 27 Ebrill 2017 – 13:30-16:30

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | |
| Samantha | Collins | Llywodraeth Cymru |
| John | Gossage | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Andy | Green | AndyGreenCreativity |
| David | James | Swyddog Galluogi Tai Gwledig |
| Glyn | Jones | Llywodraeth Cymru |
| Sue | Leake | Llywodraeth Cymru |
| Amanda | Lever | Umbrella Cymru |
| Carys | Moseley | Cytûn |
| Anna | Nicholl | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Julie | Skelton | Gofalwyr Cymru |
| Hannah | Thomas | Llywodraeth Cymru |
| Neil | Townsend | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Hade | Turkmen | Chwarae Teg |
| Catrin | James | Urdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Paul | Glaze | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| Nia | Jones | Llywodraeth Cymru |
| Huw | Gapper | Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg |
| Fiona | Liddell | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Martin | Fidler Jones | RSPCA Cymru |
| Gowan | Watkins | Llywodraeth Cymru |
| Carl | Gough | Cymdeithas Cludiant Cymunedol y DU |
| Lucy | Knight | Chwarae Teg |

<table>
<tr><td colspan="2"></td><td>Pwyntiau gweithredu</td></tr>
<tr><td>1</td><td>Croeso a Chyflwyniadau</td><td>Glyn Jones</td></tr>
<tr><td colspan="2">Agorodd GJ y cyfarfod a chroesawu’r aelodau, gan ailadrodd diben Panel y Trydydd Sector.<br><br>Roedd y drefn y cafodd yr eitemau eu cyflwyno fymryn yn wahanol i’r hyn a ddangosir yma ac yn yr Agenda.</td><td></td></tr>
<tr><td>2</td><td>Papurau: Cylchlythyr Chwarterol ar Ystadegau, demograffeg a’r Cyfrifiad</td><td>Glyn Jones</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cafodd y pynciau hyn eu cwmpasu yn yr eitemau ar yr agenda.</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Diweddariad Ystadegol: Adolygiad o’r chwe mis diwethaf a chynlluniau ar gyfer y chwe mis nesaf</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Rhoddodd GJ gyflwyniad a oedd yn dwyn ynghyd y cynlluniau ystadegol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan wahodd adborth am waith a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (LlC).<br><br>Yn cwmpasu’r Meysydd canlynol:<br><br>• Gweithgarwch Trawsbynciol<br>• Cysylltu Data<br>• Y Gymraeg<br>• Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ystadegau Poblogaeth<br>• Tai a’r Amgylchedd<br>• Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb<br>• Amaethyddiaeth a materion gwledig<br>• Ystadegau Ysgolion<br>• Data Gweithlu Ysgolion<br>• Addysg Ôl-16<br>• Data economaidd, y farchnad lafur a chludiant<br><br>Cafwyd trafodaeth ar sut gall y Panel dynnu sylw at y data sy’n ddefnyddiol fel y gall LlC deilwra’r allbwn yn unol ag anghenion defnyddwyr. Nododd JG fod cael data sydd wedi’u dadgyfuno yn ddefnyddiol er mwyn gallu crynhoi data a gweld patrymau difyr.<br><br>Ymatebodd GJ y gellir gofyn am ddadansoddiadau ychwanegol a rhagor o fanylder gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru, a fydd yn ceisio darparu’r data, os yw maint y sampl a’r rheolau datgelu yn caniatáu hynny.<br><br>O ran Arolwg Cenedlaethol Cymru, tynnodd GJ sylw at rai dadansoddiadau difyr (gan ddefnyddio atchweliad) a gyhoeddwyd ar y ffactorau sy’n esbonio’r amrywiaeth mewn llesiant.</td><td>GJ i anfon dolen i’r Panel defnyddwyr i’r blog ar Lle<br><br>Bydd GJ yn anfon y cynllun busnes ystadegau ar gyfer y flwyddyn hon i’r Panel defnyddwyr.<br><br>GJ i ysgrifennu nodyn ar y bil economi ddigidol a’i rannu â’r Panel.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Gwnaeth AN y sylw ei bod yn ddefnyddiol deall elfennau o'r Arolwg Cenedlaethol wrth ystyried pa ddadansoddiadau y gallai fod arnynt eu heisiau e.e. ar wirfoddoli. Ychwanegodd CJ ei bod yn ddefnyddiol hefyd gwybod pa ddata sydd eisoes ar gael er mwyn cynorthwyo penderfyniadau ynghylch yr hyn y dylai sefydliadau ei gynnwys yn eu harolygon eu hunain. | | |
| 4 | Diweddariad ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ac arddangosiad o arf rhyngweithiol | Hannah Thomas |
| Rhoddodd HT gyflwyniad ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Esboniodd sut mae'r mynegai a safleoedd y meysydd yn cael eu cyfrifo ar sail amrywiol ddangosyddion sy'n ffurfio pob maes, ac er mai dim ond bob pedair i bum mlynedd y mae mynegai llawn yn cael ei gyfrifo, bydd rhai dangosyddion yn cael eu diweddaru'n flynyddol. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru llawn nesaf yn cael ei gyfrifo yn 2019.<br><br>Rhoddodd yr aelodau gynnig ar yr arf Rhyngweithiol, lle gellir teipio cod post Cymreig/ardaloedd sydd o ddiddordeb a gweld proffil amddifadedd ar gyfer yr ardaloedd hynny o'u cymharu ag ardaloedd eraill.<br><br>Amlinellodd HT at ba ddibenion y gellir defnyddio data MALIC (e.e. deall anghydraddoldebau iechyd, ceisiadau am gyllid) a rhoddodd enghreifftiau o bwy sy'n defnyddio data MALIC (Llywodraeth Leol/ymwelwyr iechyd ac ati).<br>Mae data dangosyddion ar gael ar StatsCymru a cheir hefyd ddadansoddiadau manylach megis dadansoddiadau o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig ac i blant, sydd ar gael ar dudalennau gwe MALIC LIC.<br><br>Mae gwelliannau'n cael eu gwneud i dudalennau MALIC LIC yn ogystal â thudalennau StatsCymru a byddai unrhyw adborth ar y tudalennau yn cael ei werthfawrogi.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar sut byddai MALIC yn berthnasol i fyfyrwyr Safon Uwch/athrawon sy'n gweithio ar gymhwyster Bagloriaeth Cymru. HT i ystyried ymhellach sut gall LIC godi ymwybyddiaeth o ddata MALIC mewn ysgolion.<br><br>Gofynnodd AN am y posibilrwydd o gael gwybodaeth MALIC ar flog i ddefnyddwyr – HT i ystyried hyn. Dywedodd HT fod LIC hefyd yn gobeithio datblygu adnoddau hyfforddiant MALIC.<br><br>Cafwyd trafodaeth am godi ymwybyddiaeth ymhlith y trydydd sector ac mewn ysgolion, a hyfforddiant i annog hyder ymhlith defnyddwyr.<br><br>GJ yn ystyried yr angen am hyfforddiant; bydd yn anfon ebost yn | | HT i ystyried sut gellid codi ymwybyddiaeth o MALIC mewn ysgolion.<br><br>HT i ymchwilio i greu blog MALIC ar gyfer CGGC<br><br>GJ i anfon ebost yn gofyn sut y dylai hyfforddiant StatsCymru gael ei gyflwyno. |

<table>
<tr><td colspan="2">gofyn pa fath o hyfforddiant y byddai pobl ei eisiau (e.e. fideos ar-lein, seminarau ac ati) i’w helpu i gyrchu a defnyddio data StatsCymru yn fwy cyffredinol.<br><br>AN: defnyddio rhwydweithiau perthnasol i wella dealltwriaeth defnyddwyr o ddata LlC.</td><td></td></tr>
<tr><td>5</td><td>Cynlluniau ar gyfer adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol a’r adroddiad Llesiant Cenedlaethol cyntaf</td><td>Glyn Jones</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol mae’n ofynnol i LC gyhoeddi adroddiad tueddiadau’r dyfodol ynghyd â datganiad Gweinidogol.<br><br>Nod yr adroddiad hwn yw deall tueddiadau ar amrywiaeth o bynciau (heriau iechyd, newid hinsawdd, tlodi) er mwyn helpu i wella’r gallu i wneud penderfyniadau. Diben arall yw cefnogi datblygiad asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol.<br><br>Diben yr adroddiad hwn yw rhoi naratif o dystiolaeth sy’n osgoi meddwl yn ynysig ac yn annog meddwl am sut mae materion yn rhyngweithio â’i gilydd.<br><br>Bydd adroddiad statudol yn cael ei ddiweddaru bob pum mlynedd ond disgwylir y bydd yr adnodd hwn a’i hygyrchedd yn esblygu yn y dyfodol.<br><br>Disgwylir y bydd yr adroddiad Llesiant Cenedlaethol blynyddol cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Bydd hwn yn adrodd ar y cynnydd ar y saith nod llesiant ac yn cyfeirio at y 46 o ddangosyddion llesiant. Diben yr adroddiad yw adlewyrchu natur integredig y dangosyddion a sut gallant effeithio ar ei gilydd.<br><br>Mae’r adroddiad hwn yn ddibynnol ar Arolwg Cenedlaethol Cymru – disgwylir i’r canlyniadau gael eu cyhoeddi ym Mehefin 2017. Dangosodd GJ sut y bydd gan bob dangosydd ei dudalen ei hun ac esboniodd sut mae modd clicio ar nodau a chanfod pa ddangosyddion sy’n berthnasol i bob un o’r nodau llesiant ac i nodau Datblygu Cynaliadwy y CU.<br><br>Pwysleisiodd GJ eto fod y dangosyddion yn mesur cynnydd ar gyfer Cymru gyfan yn hytrach nag ar sail perfformiad cyrff cyhoeddus.<br><br>Gofynnodd HT (Hade Turkmen) gwestiwn am y dull o ymdrin â data ar gydraddoldeb. Crybwyllodd GJ y nod llesiant i gael Cymru sy’n fwy cyfartal ac ychwanegodd y bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at feysydd anghydraddoldeb allweddol megis mewn iechyd, addysg, cyflogaeth. Lle bydd modd gwneud hynny, bydd ystadegau’n cael eu rhannu fesul nodweddion amrywiol ac ar lefel leol ar StatsCymru. Tynnodd SL sylw hefyd at adroddiad a</td><td>GJ i roi diweddariad i’r Panel pan gaiff adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol ei gyhoeddi.<br><br>GJ i anfon adroddiad cydraddoldeb i’r Panel (dolen yn y Camau Gweithredu)</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| gyhoeddwyd yn ddiweddar: [Adolygiad o'r Dystiolaeth yn ymwneud ag Anghydraddoldeb yng Nghymru](). <br><br> Gofynnodd JG gwestiwn am ambell Ddangosydd Amgylcheddol penodol, ac ymatebodd SL iddo. | | |
| 6 | Diweddariad ar y Prosiect Tystiolaeth ar Gyflwr Tai | Sue Leake |
| Rhoddodd SL gyflwyniad ar y Prosiect Tystiolaeth ar Gyflwr Tai, rhaglen dair blynedd a ariennir gan LC i gau'r bwlch mewn gwybodaeth am gyflwr tai yng Nghymru. <br><br> Mewn ymateb i gwestiwn, esboniodd SL mai'r nod yw bod y sampl yn gynrychioliadol o'r stoc tai yng Nghymru, ond y bydd gorsamplu o lety rhent a'r rheini nad yw eu cyflwr cystal fel y gellir dysgu mwy am rhain. <br><br> Tra bod yr arolwg cyflwr tai yn ceisio rhoi gwybodaeth ar lefel genedlaethol, bydd y gronfa sylfaen anheddau (newidir ei henw'n fuan) yn galluogi modelu data ar lefel is drwy gasglu data gweinyddol ynghyd a gwneud mwy o ddefnydd ohonynt. <br><br> Byddai gan DJ ddiddordeb mewn gallu gwahaniaethu rhwng cyflyrau mewn ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd trefol. <br><br> Crybwyllodd SL fod diweddariad i randdeiliaid ynglŷn â hyn wrthi'n cael ei baratoi ac y bydd hi'n ei anfon i'r aelodau. <br><br> Awgrymodd AN y gellid dosbarthu gwybodaeth am y rhaglen i gymdeithasau tai drwy'r pennaeth tai ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Nododd SL pa grwpiau sydd eisoes yn cael gwybod am y rhaglen ac sy'n ymwneud â hi. Bydd hi'n ystyried unrhyw ddulliau defnyddiol pellach o gyfathrebu ynghylch y rhaglen honno. | | SL i anfon diweddariad rhanddeiliaid i'r Panel. |
| 7 | Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad | Neil Townsend |
| Cwmpasodd y cyflwyniad y prawf cyfrifiad sy'n cael ei gynnal eleni; cwestiynau newydd yn y cyfrifiad; y broses ar gyfer ychwanegu/dileu neu addasu cwestiynau. <br><br> Prawf Cyfrifiad 2017 – Cynnal cynllun peilot o ddosbarthu'r cyfrifiad, yn bennaf ar-lein yn hytrach nag ar bapur, gan ystyried sut mae hyn yn dylanwadu ar gyfraddau ymateb ac ati. Hefyd profi effaith gofyn cwestiwn am hunaniaeth rywiol a chynnal cynllun peilot o gwestiwn am wirfoddoli. <br><br> Cafwyd trafodaeth am grwpiau y gallai fod yn anos eu cyrraedd ac aelwydydd mewn amlfeddiannaeth. NT i ystyried faint o bobl ar un aelwyd y gall y ffurflen ar-lein eu cwmpasu. Nododd NT fod trefniadau arbennig ar waith ar gyfer sefydliadau cymunedol, a all fod yn her. | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 8 | Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol a dyddiad y cyfarfod nesaf | Glyn Jones |
| | Cytunwyd bod chwe mis yn raddfa amser dda ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Anogodd GJ adborth am y Panel a sut mae'n ddefnyddiol/sut gellid ei wella. Awgrymodd yr aelodau efallai y byddai cyfarfodydd yn y bore yn well. GJ i ystyried trefnu'r cyfarfod nesaf yn y bore, gydag egwyl ginio o bosibl.<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w drefnu.<br><br>Syniadau ar gyfer Agenda'r cyfarfod nesaf<br><br>• Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a'r Adroddiad Llesiant Blynyddol<br>• Bil Economi Ddigidol | GJ i ystyried cyfarfodydd yn y bore yn y dyfodol. |
| 9 | Unrhyw faterion eraill | Glyn Jones |
| | Creu dangosfwrdd cyfalaf cymdeithasol i Gymru– Andy Green | |
| | Rhoddodd AG drosolwg ar greu'r Dangosfwrdd Cyfalaf cymdeithasol. Diffiniodd Gyfalaf Cymdeithasol gan esbonio ei fod yn cynnwys tair elfen. Awgrymodd, er ein bod bellach yn fwy cysylltiedig â phobl sy'n debyg i ni, bod gostyngiad o ran pa mor dda yr ydym wedi'n cysylltu â phobl annhebyg i ni'n hunain. Diben creu'r dangosfwrdd yw dechrau mynd i'r afael â her y dirywiad mewn cyfalaf cymdeithasol mewn cymdeithas drwy ganfod data sydd ar gael a allai fonitro her cyfalaf cymdeithasol.<br><br>Gwahoddodd yr aelodau i roi gwybod iddo am unrhyw wybodaeth sydd ganddynt, o bosibl, a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn monitro cyfalaf cymdeithasol. | Aelodau i gysylltu ag AG os oes ganddynt unrhyw ddata perthnasol. |
| | Dywedodd SL wrth y Panel fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal 'Data Dive' Cymreig ym mis Mai (20/21). Diben hyn yw helpu elusennau i 'blymio' i mewn i'w data. Roedd gwybodaeth am hyn eisoes wedi'i dosbarthu gan AN.<br><br>Awgrymodd yr aelodau, gan fod y Panel wedi'i sefydlu bellach, y byddai'n ddefnyddiol adolygu'r aelodaeth a'i ailhysbysebu gyda Rhwydwaith y Trydydd Sector. | AN ac SL i ystyried gwaith pellach ar aelodaeth y cyfarfodydd, a gwahoddiadau i ymuno â'r grŵp.<br><br>AN i roi adborth ar yr hyn fyddai'n gwneud y Panel yn fwy neu'n llai defnyddiol/wedi'i deilwra/wedi'i dargedu |

| Crynodeb o Bwyntiau Gweithredu | | |
|---|---|---|
| 1 | GJ i anfon dolen i'r Panel defnyddwyr i'r blog ar Lle | Glyn Jones |
| 2 | Bydd GJ yn anfon y cynllun busnes ystadegau ar gyfer y flwyddyn hon i'r Panel defnyddwyr | Glyn Jones |
| 3 | GJ i ysgrifennu nodyn ar y bil economi ddigidol a'i rannu â'r Panel | Glyn Jones – cwblhawyd 210717 |
| 4 | Ystyried sut gellid codi ymwybyddiaeth o MALIC mewn ysgolion | Hannah Thomas |
| 5 | Ystyried creu blog MALIC | Hannah Thomas |
| 6 | Anfon ebost yn gofyn sut dylid cyflwyno hyfforddiant StatsCymru | Glyn Jones |
| 7 | Rhoi diweddariad i'r Panel pan fydd adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn cael ei gyhoeddi | Glyn Jones |
| 8 | Anfon adroddiad ar gydraddoldeb i'r Panel | Glyn Jones – cwblhawyd – gweler y ddolen yn eitem 5 uchod |
| 9 | Anfon diweddariad rhanddeiliaid i'r Panel | Sue Leake |
| 10 | Ystyried cyfarfodydd yn y bore yn y dyfodol | Glyn Jones |
| 11 | Aelodau i gysylltu ag AG os oes ganddynt unrhyw ddata perthnasol | Aelodau'r Panel |
| 12 | AN ac SL i ystyried gwaith pellach ar aelodaeth y cyfarfodydd, a gwahoddiadau i ymuno â'r grŵp. | Anna Nicholl a Sue Leake |
| 13 | AN i roi adborth ar yr hyn fyddai'n gwneud y Panel yn fwy neu'n llai defnyddiol/wedi'i deilwra/wedi'i dargedu | Anna Nicholl |